**Agenda Eitem: 4**

**Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 4 Tachwedd 2011 am 10.00am yn Ystafell Gynhadledd 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun**

**Yn bresennol:**
Mr. C.B. Halliday (Cadeirydd), Mrs. M.E. Medley a Mrs. P. White ynghyd â'r Cynghorwyr G.A. Green, D.E. Jones a H. Ll. Jones
Sylwedydd: Y Cynghorydd J. Cahill

**Hefyd yn bresennol:**
Y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr: Llywodraethu Corfforaethol (LJ) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Mr. G.F. Roberts

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu.

**MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 23 Medi 2011.

**Cywirdeb –**

Cychwynnodd y cyfarfod am 10.00 a.m. ac nid 9.30 a.m. fel y nodwyd yn y cofnodion.

Tudalen 6 – Eitem 7: Protocol Hunanreoleiddio – cytunwyd newid y gair "it" yn "if" i ddarllen"… *suggested that if there was doubt then the complaint*…"

Trafododd yr Aelodau'n fyr yr awgrym y byddai cyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau gymryd rhan yn y broses, pe byddai'r Protocol Hunanreoleiddio yn cael ei ymestyn i gynghorau tref a chymuned. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at farn yr Ombwdsmon, a fynegwyd yng Nghynhadledd Safonau Cymru yn ddiweddar, y dylid sefydlu'r protocol lleol ar lefel Cyngor Sir cyn ystyried ei ymestyn i gynghorau tref a chymuned yn yr ardal. Cytunwyd trafod y mater ymhellach yn nes ymlaen ar y rhaglen.

Tudalen 8 – Eitem Rhif 10, Cod Ymarfer, ail baragraff – Holodd y Cynghorydd G A Green ynglŷn â chywirdeb y cofnod yn ystod yr hwn y trafodwyd presenoldeb cynghorwyr a'u rôl mewn cyfarfodydd penodol. Teimlai bod awgrym nad oedd yn gwbl ymwybodol o'i rôl ei hun, nad oedd yn wir. Cytunwyd newid y geiriad i ddarllen "…*Gofynnodd y Cynghorydd D.E. Jones a'r Cynghorydd G.A. Green am esboniad gan y Dirprwy Swyddog Monitro ynglŷn â phresenoldeb a rôl y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd penodol*".

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2011 fel cofnod cywir.*

## 5. PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Adroddodd yr Aelodau'n llafar ar eu presenoldeb yn y cyfarfodydd canlynol

**Cyngor Cymuned Dyserth** – Hysbysodd Mrs P White y pwyllgor iddi fynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Dyserth ym mis Hydref, a oedd wedi ei redeg yn dda gan y clerc a'r aelodau. Gwnaed awgrymiadau a phenderfyniadau da er budd y pentref. Ar ddechrau'r cyfarfod, gwahoddwyd Mrs White i gyflwyno ei hunan ac ar ddiwedd y cyfarfod, diolchwyd iddi am ei phresenoldeb.

**Cyngor Cymuned Llanarmon yn Ial**– Hysbysodd y Cynghorydd D E Jones y pwyllgor iddo fynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl ddydd Mercher diwethaf, a chafodd ei fod yn gyfarfod wedi ei redeg yn dda ac yn wrthrychol. Roedd yn nodedig bod y Cadeirydd wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cynghorwyr yn cael cyfle i gyfrannu'r hyn y dymunent. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cytunodd y Cynghorydd Jones efallai bod ei bresenoldeb wedi cael effaith gadarnhaol ar sut y cynhaliwyd y cyfarfod. Ychwanegodd y Cynghorydd Jones iddo wrthod y cyfle a roddwyd iddo gan y Cadeirydd i annerch y cyngor.

Trafododd y pwyllgor briodoldeb annerch cynghorau wrth fynychu cyfarfodydd ac roedd y farn yn gymysg ar y pwnc. Dywedodd y Swyddog Monitro, os byddai'r aelodau yn arsylwi materion mewn cyfarfodydd a oedd wedyn yn cael eu hadrodd i'r Ombwdsmon, y byddai gofyn iddynt roi tystiolaeth o'u harsylwi fel rhan o unrhyw archwiliad a fyddai'n deillio. Pe byddai'r mater wedyn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau, byddai'r aelod arsylwi yn dyst ac ni fyddai'n medru ystyried yr achos. Roedd gan aelodau'r Pwyllgor Safonau rôl i'w chwarae o ran rhoi cyngor ac arweiniad a gallent ddefnyddio eu disgresiwn eu hunain wrth fynychu cyfarfodydd i ystyried os oedd y cod wedi ei dorri ai peidio. Gellid rhoi arweiniad os oedd y cod yn cael ei dorri'n amlwg, a gellid atgoffa'r cyngor o egwyddorion sylfaenol y cod mewn achosion llai difrifol heb fod yn feirniadol. Os oedd aelodau yn gwrthod cyfle i wneud sylwdau, gellid casglu bod y cyfarfod wedi ei gynnal yn dda.

Trafododd yr aelodau hefyd ddiffyg trefn mewn rhai cyfarfodydd a rôl bwysig hyfforddiant ar y Cod Ymarfer yn ymgorffori defnyddio chwarae rôl i adlewyrchu sefyllfaoedd go iawn. Pwysleisiodd y Cadeirydd hefyd Lyfryn Cod Ymarfer Sir Ddinbych fel enghraifft o arfer dda. Roedd yn siomedig nodi na ellid gwneud hyfforddiant o'r fath yn orfodol a theimlai'r aelodau y dylai cynghorwyr, wrth lofnodi i gytuno â'r Cod Ymarfer, hefyd lofnodi i gadarnhau eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall. Roedd y ffaith nad oedd y Cod yn syml ac y gellid ei ddehongli mewn ffyrdd

gwahanol yn gwaethygu'r broblem. Ymatebodd y swyddogion i sylwadau'r aelodau, gan grybwyll hyfforddiant yn y gorffennol ac yn y dyfodol ar y Cod. Cyfeiriwyd yn benodol at yr hyfforddiant i'r Cynghorwyr Sir ar 21 Tachwedd 2011 a'r cyd-ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer Cynghorau Tref y Rhyl a Prestatyn ar eu hanghenion hyfforddi penodol hwy. Croesawyd presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yn y digwyddiadau hyfforddi hynny. Roedd y Cod Ymarfer hefyd wedi bod yn rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cyngor newydd ac roedd wedi ei amlygu mewn sioeau ffordd i ddod, mewn llenyddiaeth a gyhoeddwyd yn hybu'r etholiadau ac roedd wedi ei flaenoriaethu yn rhaglen ddatblygu'r aelodau ar ôl etholiadau Mai. Canmolodd y Cynghorydd G A Green anerchiad y Swyddog Monitro yn y Cyngor llawn pan roedd wedi atgoffa'r aelodau o'r diffiniadau o fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymarfer. Teimlai'r Cynghorydd Green y byddai'n ddefnyddiol pe byddai datganiad tebyg yn cael ei baratoi i'w ddefnydddio yng nghyfarfodydd cynghorau tref a chymuned.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd H.Ll. Jones, esboniodd y Swyddog Monitro'r broses ar ôl gwneud cwyn i'r Ombwdsmon yn ystod yr hon yr ystyriwyd os oedd hyfforddiant ar y Cod Ymarfer wedi digwydd a pha effaith y byddai'r hyfforddiant wedi ei chael. Teimlai'r Cynghorydd G.A. Green y byddai'n ddefnyddiol i'r swyddogion roddi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod cofnodion hyfforddi cynghorwyr yn cael eu harchwilio mewn achosion o'r fath.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *Derbyn a chydnabod adroddiadau llafar gan Aelodau a oedd wedi mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned, ac*

(b) *Amlygu'r ffaith bod cofnod hyfforddiant aelod ar y Cod Ymarfer yn cael ei ystyried mewn archwiliadau gan yr Ombwdsmon, mewn digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol a'r sioeau ffordd sydd i ddod.*

## 6. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2011

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad llafar ar bresenoldeb gan aelodau yng Nghynhadledd Safonau Cymru 2011 a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011 yn Llandrindod. Roedd panel o siaradwyr wedi annerch y Gynhadledd yn sesiwn y bore a rhoddodd y Swyddog Monitro drosolwg o'r areithiau hynny fel a ganlyn -

- Peter Davies – Cyflwynodd Cadeirydd Panel Arfarnu Cymru araith ar waith cyffredinol y Panel a manylodd gategorïau mwyaf cyffredin tor-rheolau cyson. Mynegodd bryderon hefyd ynglŷn â natur ddeddfol y trafodion gerbron y Panel Arfarnu, a'i farn y dylai'r trafodion fod yn chwilysol yn hytrach nag yn wrthwynebol ac roedd amser yn cael ei gymryd yn gynyddol ar bwyntiau technegol oherwydd y cynnydd yn y defnydd o gyfreithwyr.

- Peter Tyndall – Rhoddodd Swyddfa'r Ombwdsmon yng Nghymru drosolwg o waith ei swyddfa a'r nifer gynyddol o gwynion a dderbynnir. Roedd yn derbyn bod oedi wrth archwilio yn rhoi pwysau ar aelodau ac reodd yn gobeithio cyflymu'r broses ddatrys. Mynegodd bryderon ynglŷn â nifer y cwynion pitw heb unrhyw sylfaen, a oedd yn defnyddi adnoddau gwerthfawr. Roedd elfennau o'r Cod angen eu hadolygu ac roedd yn bwriadu cyflwyno arweiniad

mewn perthynas â'r meysydd hynny ac edrych i gyfeiriad datrys yn lleol. Teimlai y dylid cyfyngu'r Protocolau Hunanreoleiddio i Gyngorau Sir nes penderfynwyd ar eu heffeithiolrwydd, a theimlai y byddai perygl gorlwytho pe cawsai'r Protocol ei ymestyn i gynghorau tref a chymuned. Roedd yr Ombwdsmon yn awyddus i gytuno ar agwedd gyson ledled Cymru a phroses genedlaethol i ddatrys yn lleol. Mynegodd bryder hefyd ynglŷn â'r costau a achoswyd yn y Panel Arfarnu a'r Pwyllgorau Safonau, a theimlai y dylid cael agwedd genedlaethol tuag at indemniad aelodau a chyfyngu gwario ar gynrychiolaeth gyfreithiol.

- Reg Kilpatrick – Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyd-destun cenedlaethol a theimlai y dylai fframwaith statudol cenedlaethol barhau i fodoli, ac y dylid cael Cod Ymarfer a Fframwaith Moesegol. Disgwyliai Llywodraeth Cymru yr ymddygiad gorau a mynegodd bryder ynglŷn â defnyddio'r fframwaith er budd gwleidyddol. Gan nad oedd unrhyw gynlluniau i newid y ddeddfwriaeth a lywodraethai'r Cod Ymarfer, croesawodd ddefnyddio protocolau lleol gyda chytundeb yr Ombwdsmon. Mynegodd ei bryder hefyd ynglŷn â lefel yr indemniad a ddarparwyd a chefnogodd yr agwedd i newid hynny gyda phob ochr yn cytuno.

- Clarence Meredith – Adroddodd Swyddog Monitro Cyngor Sir Powys ar fewnbwn cadarnhaol y Pwyllgor Safonau a rhoddodd enghraifft o Bwyllgor Safonau Powys yn cymryd rhan yn weithredol mewn rhai materion penodol. Yn wyneb y nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn ardal Powys, holodd os oedd angen cod ar wahân i ddelio â hwy a derbyniodd sylwadau cymysg mewn ymateb i'w gwestiwn.

Ar ôl yr areithiau, canolbwyntiodd y drafodaeth ar agweddau Cod Ymarfer presennol yr Aelodau, a chodwyd materion yn ymwneud â chostau ac indemniad, cwynion blinderus a gwleidyddol a'r Fframwaith Safonau yn Lloegr. Canolbwyntiodd sesiwn y prynhawn ar Wrandawiad Ffug a baratowyd gan Gyfreithiwr arweiniol Llywodraeth Leol Peter Keith-Lucas o Bevan Brittan a rhoddwyd rôl i Mrs P White. Roedd y chwarae rôl yn rhoi arddangosiad defnyddiol o sut dylid cynnal gwrandawiad o'r ddwy ochr, ac roedd copïau o'r sgript wedi ei baratoi ar gyfer yr aelodau.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog Monitro am ei adroddiad cynhwysfawr ar y Gynhadledd Safonau. Gan fod cwynion blinderus, maleisus a gwacsaw a chwynion oherwydd cymhelliant gwleiddol yn amlwg yn torri'r Cod Ymarfer, holodd y Cynghorydd G.A. Green a ellid cymryd camau, mewn achosion amlwg. Atebodd y Swyddog Monitro bod angen I'r Ombwdsmon daro cydbwysedd i sicrhau bod pobl yn teimlo'n hyderus yn cwyno gyda phob ewyllys da os oedd drygioni. Pe byddai'r Ombwdsmon yn casglu fod y gŵyn yn un flinderus neu wedi ei defnyddio fel arf gwleidyddol, yna gallai archwilio ymhellach. Teimlai'r Cynghrydd Green y dylid codi mater adnabod tueddiadau o'r fath gyda'r Ombwdsmon i sicrhau bod achosion o dorri rheolau'n gyson yn cael eu harchwilio. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r Ombwdsmon yn gobeithio yn y dyfodol y byddai materion o'r fath yn cael eu trin yn fewnol trwy ddatblygu protocolau lleol. Derbyniwyd rhyw gymaint o fynd a dod gwleidyddol.

Roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd ar adborth cadarnhaol gan gynrychiolwyr eraill mewn perthynas â'r gwaith rhagweithiol a wnaed yn Sir Ddinbych i wella safonau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad llafar ar Gynhadledd Safonau Cymru 2011.*

## 3 PROTOCOL HUNANREOLEIDDIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn cyflwyno drafft diweddaraf y Protocol Hunanreoleiddio (Atodiad 1 i'r adroddiad) ac yn diweddaru'r aelodau ar y cynnydd hyd yma.

Atgoffodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr aelodau bod y Protocol wedi ei ddatblygu i ddelio â phryderon y pwyllgor mewn perthynas â chwynion rhwng aelodau nad oeddynt yn ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon, a bod Cod Ymarfer yr Aelodau yn cael ei ddefnyddio fel arf gwleidyddol ar adegau. Roedd y Protocol yn sefydlu trefn i ddelio â'r cwynion hynny nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i fod yn dor-rheol, i'w trin dan drefn leol, ac nad oeddynt yn cyfiawnhau cyfeirio cwyn ffurfiol at yr Ombwdsmon. Y bwriad oedd bod y Protocol yn mynd gyda'r Cod Ymarfer. Roedd cynllun gweithredu diwygiedig yn manylu'r broses ymgynghori cyn mabwysiadu'r Protocol wedi ei nodi ym mharagraff 2.4 yr adroddiad. Ar ôl ymgynghori â'r Arweinydd ac Arweinwyr Grwpiau ar y Protocol, gweithredwyd y camau canlynol –

- Ymgorfforwyd amserlenni yn y broses a oedd yn adlewyrchu rhai'r drefn cwynion corfforaethol
- Rôl i Gadeirydd y Cyngor o fewn y broses rhag ofn y byddai Arweinydd Grŵp yn destun cwyn
- Ymgynghori â'r holl gynghorwyr cyn unrhyw drafodaeth ar y protocol a'i drefn gan y Cyngor llawn. Roedd y broses ymgynghori wedi cychwyn, a gofynnwyd am adborth erbyn 5 Ionawr 2012.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Swyddog Monitro am ei gwaith caled yn datblygu'r Protocol, ac roedd yn teimlo bod hyn yn amlygu Sir Ddinbych fel awdurdod arweiniol o ran gwella safonau. Yn ystod y drafodaeth cododd yr aelodau nifer o faterion ar elfennau'r broses a drafodwyd gyda'r swyddogion fel a ganlyn –

- Codwyd absenoldeb proses apelio a chytunwyd cynnwys hawl apelio o fewn amserlen briodol i sicrhau nad oedd oedi gormodol
- Amlygwyd y rôl bwysig a roddwyd i Arweinwyr Grwpiau a theimlwyd y gellid cael agwedd anghyson gan Arweinwyr Grwpiau, gyda rhai yn debygol o gymryd y broses fwy o ddifrif nag eraill. Gobeithiwyd y byddai cyfranogiad y Swyddog Monitro fel hwylusydd ynghyd â chyfranogiad aelod Pwyllgor Safonau yn ychwanegu pwysau i'r broses ac yn gyrru proses ddatrys yr anghydfod. Byddai Arweinwyr Grwpiau hefyd yn cael hyfforddiant
- Mynegwyd barn y dylid dileu'r elfen wleidyddol o'r broses a bod rôl Arweinydd Grŵp yn cael ei disodli gan y Cadeirydd i sicrhau y ceid penderfyniad annibynnol. Atgoffwyd yr aelodau o'r rhesymeg tu cefn i roddi rôl i arweinwyr y Grwpiau a chaniatáu iddynt reoleiddio ymddygiad aelodau eu grŵp a hwyluso

ateb cydsyniol er mwyn trwsio a gwella perthynas rhwng aelodau eraill y grŵp trwy fynd trwy'r broses. Byddai cefnogaeth gan y pwyllgor hwn hefyd yn cael ei roddi i Arweinwyr Grwpiau ac os na cheid ateb yna byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Safonau.

- Awgrymwyd bod y Swyddog Monitro yn arfarnu cwynion a dderbyniwyd yn y lle cyntaf i sicrhau nad oedd cwynion nad oedd yn haeddu archwiliad yn mynd rhagddynt. Teimlai'r Swyddog Monitro mai'r cam cyntaf oedd penderfynu os oedd cwyn a dderbyniwyd yn un mor ddifrifol y dylid ei chyfeirio at yr Ombwdsmon neu os yn briodol i Arweinwyr Grwpiau. Nid oedd yn rhagweld archwiliad rhagarweiniol o'r gŵyn gan y teimlai y byddai cwynion blinderus neu wacsaw yn dod i'r amlwg yn ystod y broses ac yn caniatáu atebion cydsyniol a chreu sefyllfa lle byddai'r aelodau yn cymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain. Gellid cyfeirio achosion cyson o dorri rheolau neu honiadau lefel isel na ellid eu datrys gan Arweinwyr y Grwpiau at yr Ombwdsmon.
- Roedd rhai materion ymddygiad wedi eu nodi yng nghyfarfodydd cynghorau tref a chymuned a phwysleisiodd yr aelodau fanteision hyfforddiant i gadeiryddion a oedd yn cadeirio'r cyfarfodydd hynny a chadw trefn mewn cyfarfodydd anodd.
- Gan fod problemau wedi eu nodi mewn cyfarfodydd penodol cynghorau tref/cymuned, awgrymwyd y byddai haeddiant mewn rhannu'r sir yn grwpiau ardal i drafod materion a sicrhau Hyrwyddwr Safonau ym mhob cyngor tref/gymuned. Atgoffwyd yr aelodau o farn yr Ombwdsmon i beilotio trefniadau lleol ar lefel sirol cyn ymestyn y protocol i lefel tref/gymuned.

Ar ôl mynegi eu pryderon ynglŷn ag elfennau o'r broses, ailgadarnhaodd yr aelodau eu cefnogaeth, mewn egwyddor, i'r Protocol Hunanreoleiddio, gyda chynhwysiad mecanwaith apelio yn yr amserlenni o fewn y broses.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) Yn amodol ar gynnwys mecanwaith apelio gydag amserlen briodol o fewn y broses, cefnogi'r Protocol Hunanreoleiddio drafft (fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad) mewn egwyddor, a*

*(b) Ar ôl ymgynghori â'r holl gynghorwyr, cyflwyno adroddiad cynnydd pellach ar y Protocol Hunanreoleiddio drafft i'r Pwyllgor Safonau ar 27 Ionawr 2012.*

## 4 CYFARFOD PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Rhoddodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad llafar ar fynychu Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn ddiweddar ym Modlondeb, Conwy ar 1 Tachwedd 2011. Roedd copi o'r rhaglen wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Wrth roddi trosolwg o'r cyfarfod, dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro -

- Er gwaethaf presenoldeb gwael, y consensws oedd y dylai'r Fforwm barhau
- Roedd Mr K P Sibbons, Cyngor Sir y Fflint, wedi ei benodi yn Is-gadeirydd
- Trafodwyd amodau cyfeirio a byddant yn cael eu hailystyried yn y flwyddyn newydd, gyda chyd-hyfforddiant a rhannu arferion da yn cael eu nodi fel y prif faterion – croesawyd barn yr aelodau ar yr amodau cyfeirio er mwyn rhoi adborth i'r cyfarfod nesaf

- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch – cafwyd trafodaeth ar lefel y gwerth a bennwyd gan awdurdodau lleol gyda golwg ar bennu swm safonol ledled Cymru
- Cynhadledd Safonau Cymru – cafwyd adborth ar y gynhadledd
- Ymateb gan yr Ombwdsmon ar Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru – roedd y Fforwm yn awyddus i groesawu'r Ombwdsmon i gyfarfod yn y gwanwyn i drafod eu gwaith a'u protocolau
- Unrhyw fater arall – trafodaeth ar i ba raddau yr oedd Pwyllgorau Safonau allan yn y gymuned a rhannwyd arferion gorau.

Wrth ystyried cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2011, nododd y Cynghorydd G A Green bod Cyngor Dinas Caerdydd mae'n debyg wedi newid ei God Ymarfer i sicrhau ei bod yn orfodol i holl Gynghorwyr Sir fynychu Hyfforddiant Cod Ymarfer a holodd a ellid gorfodi hyfforddiant yn Sir Ddinbych. Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at yr adolygiad parhaus a oedd yn mynd rhagddo ar Gyfansoddiad y Cyngor a dywedodd y byddai'n hapus cael adborth gan yr aelodau ar hynny. Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Green ar gyllid CLILC ar gyfer sesiynau hyfforddi, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n annhebygol y byddai cyllid yn cael ei roddi i awdurdodau eraill i'r diben hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad llafar gan y Dirprwy Swyddog Monitro ar gyfarfod Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2011.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf yn cael ei datgelu.*

**5 COD YMARFER – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 2011.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro yr adroddiad i'r aelodau a oedd yn manylu'r awdurdod a oedd yn destun cwyn; y gŵyn honedig; y canlyniad a ffynhonnell y gŵyn ar gyfer nifer o achosion a gwblhawyd a rhai a oedd ar y gweill. Cyfeiriwyd hefyd at yr oedi yn swyddfa'r Ombwdsmon o ran ymateb i gwynion, a oedd yn cael effaith niweidiol ar yr achwynydd a'r unigolyn a oedd yn destun y gŵyn. Gofynnodd y Cynghorydd H.Ll. Jones bod dyddiad y gŵyn yn cael ei gofnodi er mwyn i'r aelodau fod yn ymwybodol o'r amserlenni dan sylw. Yn dilyn ymlaen o'r angen am hyfforddiant a nodwyd gan y pwyllgor yn y cyfarfod nesaf, roedd y Dirprwy Swyddog Monitro yn falch o gyhoeddi y byddai cyd-sesiwn hyfforddi yn cael ei gynnal yn y man i'r ddau Gyngor dan sylw, ac yna byddai sioeau ffordd yn cael eu cynnal mewn cymunedau eraill.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *derbyn a chydnabod yr adroddiad, a*
*(b)* *cofnodi dyddiad cwynion mewn adroddiadau yn y dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.

**Eitem Rhif 8 ar yr Agenda**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **27 Ionawr 2012**

**Awdur yr Adroddiad:** **Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011**
**Tuedd bennu (*Predetermination*)**

---

## 1 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am ddarpariaethau Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n ceisio egluro'r gyfraith mewn perthynas â thuedd bennu, a gofyn am sylwadau'r Aelodau am nodyn gwybodaeth drafft a luniwyd gan Gangen Cymru o Gymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr (ACSeS) i'w ddosbarthu ymhlith y Cynghorwyr.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae'r llywodraeth wedi ceisio egluro'r rheolau ynghylch tuedd bennu er mwyn i Gynghorwyr allu mynegi eu barn am faterion o bwysigrwydd lleol heb ofni her gyfreithiol. Daeth Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i rym ar 15 Ionawr 2012. Bwriad y llywodraeth wrth dderbyn yr adran hon yw egluro ei bod yn briodol i Gynghorwyr chwarae rhan weithgar mewn trafodaethau lleol ac na ddylent fod yn atebol i her gyfreithiol o ganlyniad.

2.2 Mae Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2012 yn amodi na cheir tybio bod gan benderfynwr feddwl caeedig, ac na cheir tybio bod penderfynwr fel petai ganddo feddwl caeedig wrth wneud penderfyniad, dim ond am y rheswm:

(a) bod y penderfynwr wedi gwneud unrhyw beth o'r blaen a oedd yn nodi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol farn y penderfynwr, neu farn bosibl y penderfynwr, mewn perthynas â mater a

(b) bod y mater yn berthnasol i'r penderfyniad.

2.3 Cyn cyflwyno Deddf Lleoliaeth 2011, roedd y gyfraith achosion mewn perthynas â thuedd a thuedd bennu wedi newid y sefyllfa cyfraith gwlad ar nifer o achlysuron dros y degawd diwethaf gyda'r pendil yn siglo o'r naill ochr i'r llall. Roedd cysyniad tuedd bennu yn deillio o egwyddorion cyfraith gwlad hynafol cyfiawnder naturiol. Wrth i'r gyfraith achosion ddatblygu, gwahaniaethwyd rhwng tuedd (bod â budd personol yn y penderfyniad) a "thuedd bennu" (bod â meddwl caeedig). Datblygodd y llysoedd hefyd gysyniad tuedd bennu a thuedd "ymddangosiadol". Nododd nifer o benderfyniadau barnwrol fod anoddefgarwch tuag at duedd neu duedd bennu ar ran y penderfynwr.

2.4 Mae achosion mwy diweddar wedi gwahaniaethu rhwng tuedd bennu sy’n anghyfreithlon a rhagdueddiad sy’n gyfreithlon. Mae’r achosion hyn wedi cydnabod y bydd gan Gynghorwyr farn gadarn yn gyfreithlon am faterion y mae’n rhaid iddynt benderfynu yn eu cylch, ac y byddant wedi mynegi’r farn honno, ac y dylid caniatáu hyn. Er gwaethaf yr achosion hyn, roedd diffyg hyder ac eglurder o hyd wrth egluro’r sefyllfa gyfreithiol.

2.5 Mae aelodau o Gangen Cymru ACSeS wedi datblygu nodyn gwybodaeth drafft i’w anfon at Aelodau i egluro effaith Adran 25 a’r sefyllfa gyfreithiol newydd o ran tuedd bennu. Gofynnir am farn yr Aelodau am y nodyn gwybodaeth drafft sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr Aelodau’n nodi bod Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2012 wedi’i chyflwyno a’u bod yn ystyried rhinweddau’r nodyn gwybodaeth drafft sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i’r adroddiad hwn.

**Atodiad 1**

**<u>Nodyn Gwybodaeth i'r Aelodau</u>**

Daeth Adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i rym ar 15 Ionawr 2012. Bwriad y llywodraeth wrth dderbyn yr adran hon yw "egluro ei bod yn briodol i Gynghorwyr chwarae rhan weithgar mewn trafodaethau lleol ac na ddylen nhw fod yn atebol i her gyfreithiol o ganlyniad".

Bwriad y nodyn hwn yw rhoi golwg cyffredinol ar y sefyllfa a'i goblygiadau. Bydd angen cyngor cyfreithiol penodol ar oblygiadau Adran 25 mewn rhai amgylchiadau.

**Beth mae Adran 25 yn ei ddweud?**

Mae Adran 25 (2) yn nodi'r canlynol:-

Ni cheir tybio bod gan benderfynwr feddwl caeedig, ac ni cheir tybio bod penderfynwr fel petai ganddo feddwl caeedig wrth wneud penderfyniad, dim ond am y rheswm:-

(a) bod y penderfynwr wedi gwneud unrhyw beth o'r blaen a oedd yn nodi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol farn y penderfynwr, neu farn bosibl y penderfynwr, mewn perthynas â mater a

(b) bod y mater yn berthnasol i'r penderfyniad

Mae'n berthnasol i gamau (achosion llys yn gyffredinol, yn arbennig adolygiad barnwrol) sy'n herio dilysrwydd penderfyniad Cyngor ar sail gwyrduedd neu dueddbennu neu fel arall.

Lle bydd achos felly'n dibynnu i unrhyw raddau ar brofi bod gan y penderfynwr feddwl caeedig, ni all y sawl sy'n cyflwyno'r achos ddibynnu ar unrhyw beth a wnaethpwyd neu a ddywedwyd yn flaenorol a oedd yn berthnasol i'r penderfyniad yn dystiolaeth o feddwl caeedig y penderfynwr neu'r penderfynwyr. Bydd hyn yn cynnwys datganiadau mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sylwadau yn y wasg neu gyfraniad mewn cyfarfodydd Cyngor Cymunedol gan aelodau Cyngor Sir.

Yn amlwg, bydd yr Adran yn ei gwneud yn anodd iawn profi her sy'n dibynnu ar ganfod tuedd (*bias*) neu dueddbennu (*pre-determination*) trwy gyfeirio at sylw neu ddatganiadau blaenorol.

**Sut mae hyn yn effeithio ar Dueddbennu a Gwyrduedd?**

Gofynion Cyfraith Gyhoeddus

Wrth wneud penderfyniad, rydych chi'n destun gofynion cyfreithiol ehangach na thuedd a thueddbennu. Mae gofyn ichi ystyried pob ffactor perthnasol a diystyru'r ffactorau sy'n amherthnasol.

Bydd y materion hyn yn amrywio o'r naill benderfyniad i'r llall ond, er enghraifft, efallai bydd bwriad clir a ddatganwyd i wneud penderfyniad arbennig heb ystyried materion allweddol yn dal yn sail i herio'r penderfyniad ar y sail bod ystyriaethau perthnasol wedi'u hanwybyddu. Er enghraifft, byddai datganiad fel 'Byddaf yn pleidleisio yn erbyn hyn heb ystyried y sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad cyhoeddus' yn achosi her yn seiliedig ar ymgynghori amhriodol lle gall yr ymgyngoreion ddadlau nad ystyriwyd eu barn am fod aelod wedi datgan nad oedd ganddo ddiddordeb yn yr hyn y maen nhw wedi'i ddweud.

Bydd angen ichi fod yn ymwybodol o hyd o'r gofynion cyfreithiol ehangach hyn a hynny'n enwedig os ydych chi'n benderfynwr allweddol fel Aelod Gweithredol.

**Cod Ymddygiad Aelodau**

Mae Paragraff 8 o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol i Aelodau yn gofyn bod Aelodau'n gwneud penderfyniadau yn ôl rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd, gan ystyried unrhyw gyngor a roddir gan swyddogion. Mae'r Cyfarwyddyd gan yr Ombwdsmon yn nodi bod tueddbennu a gwyrduedd yn dystiolaeth berthnasol mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon a chydymffurfio. Fodd bynnag, am nad yw Adran 25 yn berthnasol ond i sefyllfaoedd lle caiff dilysrwydd penderfyniad ei herio, nid yw'n effeithio ar y gofyniad hwn a bydd rhaid ichi sicrhau o hyd eich bod chi'n gwneud penderfyniadau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r paragraff hwn.

**Gwrandawiadau Lled Farnwrol**

Sefyllfaoedd yw'r rhain lle rydych chi'n eistedd ar Bwyllgor, Is-bwyllgor neu Banel i gynnal gwrandawiad a'i bod yn rhaid ichi bwyso a mesur tystiolaeth a dadleuon yn annibynnol a gwneud penderfyniad. Maen nhw'n cynnwys: gwrandawiadau Pwyllgor Safonau, Ceisiadau Trwyddedu, apeliadau neu Baneli Cyflogaeth, Paneli Tenantiaeth Isradd etc.

Mae'r penderfyniadau hyn yn destun canlyniadau neu gyfyngiadau cyfreithiol ehangach os nad ydynt yn cydymffurfio â gofyniad tegwch cyffredinol. Mae hyn yn gallu digwydd oherwydd yr hawl cyfraith gwlad i wrandawiad teg neu, lle mae'n berthnasol, gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998 (Erthygl 6) sy'n gosod gofyniad tebyg.

Bydd hefyd yn codi lle gall tegwch y broses, mewn sefyllfaoedd fel Paneli Disgyblu, fod yn berthnasol i benderfyniad Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar ganfod Diswyddo Annheg.

Gan amlaf, ni fydd apeliadau neu heriau i dribiwnlysoedd allanol yn herio dilysrwydd y penderfyniad dan sylw ond yn hytrach yn ceisio gwneud iawn neu ailbenderfynu'r mater. Mae'r risg cyfreithiol yn parhau hefyd i'r Cyngor sef methu â chynnal gwrandawiad teg, a adlewyrchir mewn dyfarniadau digollediad, iawndal neu gostau.

Mae'n annhebygol yn yr achosion hyn y byddai Adran 25 yn amddiffyn y Cyngor lle mae tegwch gweithdrefnol yn fater i dribiwnlys. Cynghorir yr Aelodau sy'n cyfranogi mewn penderfyniadau felly na chânt greu argraff o wyrduedd neu dueddbennu am y rhesymau hyn.

**Sut mae hyn yn effeithio ar Aelodau**

Prif ofid Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor wrth gynghori ar wyrduedd neu dueddbennu neu seiliau tebyg oedd rheoli risg her gyfreithiol i benderfyniadau'r Cyngor.

Er bod problemau o ran dehongli'r Adran, yn gyffredinol mae'n golygu nad oes cymaint o risg o her gyfreithiol lwyddiannus i benderfyniad ar y sail hon. Fodd bynnag, ni ellir sicrhau'n gyfan gwbl na fydd beth bynnag a ddywed aelodau cyn gwneud penderfyniad yn bwysig o gwbl ac, fel erioed, bydd llawer yn dibynnu ar y ffordd mae'r llysoedd yn ystyried unrhyw heriau yn seiliedig ar farn a fynegwyd yn flaenorol.